

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 16 Mehefin 2016

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: LLYTHYR GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL**

**Teitl: BRECHIAD PERTWSIS (Y PAS) I FERCHED BEICHIOG - RHOI'R BRECHIAD YNGHYNT.**

**Dyddiad dod i ben / Adolygu Dd/G**

**I'w weithredu gan:**

Meddygon Teulu a Nyrsys Practis  
Arweinwyr Imiwneiddio, Byrddau Iechyd  
Prif Weithredwyr, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau/Ymddiriedolaethau  
Iechyd  
Cyfarwyddwyr Gweithredol - Nyrsio,  
Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd  
Prif Fferyllwyr, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Byrddau Iechyd  
Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol,  
Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Iechyd Sylfaenol, Iechyd Cymunedol ac  
Iechyd Meddwl, Byrddau Iechyd  
Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd y  
Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Cyfarwyddwr Nyrsio, Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Pennaeth y Rhaglen Clefydau y Gellir eu Hatal drwy  
Frechlyn, Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Meddygon Ymgynghorol ym maes Rheoli Clefydau  
Trosglwyddadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**At sylw:**

Fforwm Partneriaeth GIG Cymru  
Cymdeithas Feddygol Prydain  
Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru)  
Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu  
Y Coleg Nyrsio Brenhinol  
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

**Anfonir gan:**

Prif Swyddog Meddygol Dros Dro Cymru/Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru

**Enw(au) Cyswilt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**

David Vardy, Y Gangen Cydnerthedd Iechyd, Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. Ffôn: 029 2080 1318

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Imiwneiddiad Pertwsis ar gyfer Merched Beichiog ac Ôl-enedigol) (Gwasanaethau Ychwanegol dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2016

Annwyl Gydweithiwr,

## **BRECHIAD PERTWSIS (Y PAS) I FERCHED BEICHIOG - RHOI'R BRECHIAD YNGHYNT.**

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu am newid i'r rhaglen brechiadau pertwsis i ferched beichiog. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu canllawiau gan y Cydbwyllgor Brechu ac Imiwneiddio (y Cydbwyllgor) sy'n nodi y **dylid imiwneiddio merched beichiog o wythnos 16 o'u bechiogrwydd ymlaen.**

Mae Pennod y Llyfr Gwyrdd ar bertwsis wedi'i diweddarau yn unol â chyngor y Cydbwyllgor. Gellir gweld "The Green Book: Immunisation against infectious disease" yn: <https://www.gov.uk/government/publications/pertussis-the-green-book-chapter-24>

### **Cefndir**

Ers mis Hydref 2012, mae rhaglen dros dro wedi bod ar waith i frechu merched beichiog rhag pertwsis. Cyflwynwyd y rhaglen mewn ymateb i gynnydd mewn gweithgarwch pertwsis ledled y DU ers canol 2011. (Gweler [CEM/CMO/2012/16](#) a [CMO2013/13](#)).

Diben y rhaglen yw cynyddu gwrthgyrff ymhlith merched a gaiff eu brechu yn ystod eu bechiogrwydd, fel bod gwrthgyrff pertwsis-benodol yn cael eu trosglwyddo o'r fam i'r babi. Y nod yw amddiffyn y babi o'r eiliad y caiff ei eni, cyn i'r rhaglen imiwneiddio arferol ddechrau pan fydd yn wyth wythnos oed.

Mae achosion o bertwsis ymhlith babanod a enir i famau sydd wedi'u brechu wedi gostwng dros 90% o ganlyniad i'r rhaglen<sup>1</sup>. Yn sgil llwyddiant cynllun brechiadau pertwsis dros dro i achub bywydau babanod a'r cynnydd parhaus yn nifer yr achosion o bertwsis, argymhellodd y Cydbwyllgor ym mis Mehefin 2014 y dylai'r rhaglen gael ei hymestyn am bum mlynedd arall.

Yn 2012, dangosodd y dystiolaeth oedd ar gael, drwy ei roi ar ddechrau tri mis olaf y bechiogrwydd, y byddai'r brechiad fwyaf buddiol. Felly, argymhellodd y Cydbwyllgor y dylid cynnig y brechlyn i ferched rhwng wythnos 28 ac wythnos 32 o'u bechiogrwydd.

Ers hynny, mae ymchwil newydd wedi dod i'r amlwg<sup>2</sup> sy'n dangos bod imiwneiddio merched ynghynt yn ystod eu bechiogrwydd (h.y. yr ail gyfnod o dri mis) yn ddiogel ac yn golygu y caiff mwy o wrthgyrff eu trosglwyddo i'r babi. Bydd rhoi'r brechiad ynghynt hefyd yn sicrhau bod babis a allai gael eu geni'n gynnar wedi'u

---

<sup>1</sup> Amirthalingam G., Andrews N., Campbell H., Ribeiro S., Kara E., Donegan K., Fry N.K., Miller E. a Ramsay M. (2014) Effectiveness of maternal pertussis vaccination in England: an observational study. The Lancet, Cyfrol 384, Rhifyn 9953: 1521-1528. <http://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0140673614606863>

<sup>2</sup> Eberhardt CS, Blanchard-Rohner G, Lemaître B, Boukrid M, Combescure C, Othenin-Girard V, Chilin A, Petre J, de Tejada BM, Siegrist CA. (2016) Maternal Immunization Earlier in Pregnancy Maximizes Antibody Transfer and Expected Infant Seropositivity Against Pertussis. Clin Infect Dis. Cyfrol 62, Rhifyn 7: 829-36. <http://cid.oxfordjournals.org/content/62/7/829.full.pdf>

diogelu hefyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd caiff babanod cynnar eu gorgynrychioli ymhlith achosion o'r pas sy'n digwydd yn ystod y cyfnod hwn.

### **Trefniadau brechu**

Dylid cynnig un dos 0.5ml o frechlyn dTaP/IPV i ferched beichiog rhwng wythnosau 16 a 32 o'u bechiogrwydd er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y babi wedi'i ddiogelu o'r eiliad y caiff ei eni. Dylid cynnig y brechlyn i ferched yn ystod pob bechiogrwydd. Mae modd brechu merched ar ôl wythnos 32 o'u bechiogrwydd o hyd ond efallai na fydd hyn yn cynnig cymaint o ddiogelwch goddefol i'r babi. Fodd bynnag, gall brechu merched yn hwyr yn ystod eu bechiogrwydd ddiogelu'r fam rhag y clefyd yn uniongyrchol a thrwy hynny leihau'r risg i'w babi.

**Mae'r newid hwn yn rhoi mwy o gyfleoedd i ferched beichiog gael cynnig brechlyn pertwsis yn ystod bechiogrwydd.**

### **Gweithredu'r rhaglen a chyflenwi'r brechlyn**

Dylid parhau i weithredu rhaglen pertwsis (yn y rhan fwyaf o achosion) drwy'r Practis Cyffredinol. Mae Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru) wedi cael gwybod am y newid arfaethedig.

Dylai Practisau Cyffredinol sicrhau eu bod yn cysylltu â phob merch feichiog ynglŷn â'r brechiad, yn enwedig y rhai sydd ond yn cael gofal gan fydwaig neu feddyg ymgynghorol yn yr ysbyty. Dylai bydwagedd sicrhau bod merched beichiog yn cael gwybod am y rhaglen a'u bod yn cael eu cynghori i gysylltu â'u meddygfa er mwyn trefnu apwyntiad i gael y brechiad.

Dylai pob gweithiwr iechyd proffesiynol sicrhau bod pob merch feichiog sy'n mynychu sesiwn imiwneiddio yn cael gwybodaeth a chyngor priodol am frechlyn pertwsis a chyfle rhesymol i drafod unrhyw bryderon cyn cael ei himiwneiddio.

**Gellir rhoi'r brechiad rhag pertwsis ar yr un pryd â'r brechiad rhag y fflw yn ystod misoedd y gaeaf.**

Bydd cynnydd bach yn nifer y merched cymwys i ddechrau ond ni fydd hyn yn effeithio ar gyflenwadau'r brechlyn ac mae digon o'r brechlyn ar gael.

Dylid archebu'r brechlyn drwy ImmForm yn yr un ffordd â'r brechlynnau eraill a ddefnyddir mewn rhaglenni cenedlaethol. Dylai darparwyr archebu'r brechlyn a argymhellir ar ImmForm. Os nad yw brechlyn Boostrix® IPV (dTaP/IPV) ar gael, mae Repevax® (dTaP/IPV) yn ddewis amgen addas. O dan amgylchiadau prin pan fydd merch feichiog yn dod i gael brechiad ac na fydd Boostrix®-IPV na Repevax® (dTaP/IPV) ar gael, yn hytrach na gohirio'r brechiad, dylid rhoi Infanrix®-IPV (DTaP/IPV) iddi.

### **Cyfraddau Defnyddio**

Ar hyn o bryd, mae cyfraddau defnyddio brechlyn pertwsis ymhlith merched beichiog yng Nghymru yn uchel. Yn ôl arolwg a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ddechrau 2016 yn ardaloedd pob bwrdd iechyd, dywedodd

72.4% o ferched beichiog yng Nghymru eu bod wedi cael brechlyn pertwsis. Bydd cynnig y brechlyn yn gynharach yn ystod beichiogrwydd yn rhoi mwy o gyfle i ferched gael y brechlyn a bydd modd cynnig y brechiad ar yr un pryd â'r sgan uwchsain arferol a gynhelir i ganfod anomaledd yn ystod wythnos 20 neu yn ystod unrhyw gysylltiadau arferol neu gysylltiadau eraill. Dylai ymarferwyr meddygol, bydwragedd ac eraill wneud pob ymdrech i annog merched beichiog i fanteisio ar frechiad pertwsis.

### **Gweithredu**

Mae Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Imiwneiddiad Pertwsis ar gyfer Merched Beichiog ac Ôl-enedigol) (Gwasanaethau Ychwanegol dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2016 wedi'u hatodi. Mae'r rhain yn nodi'n ffurfiol bod y rhaglen frechu hon i gychwyn ar 17 Mehefin 2016. Mae'r ffi ar gyfer rhoi'r brechlyn gan feddyg teulu yn cydymffurfio â'r gyfradd gyfredol o £7.80. Fodd bynnag, mae'r ffi "eitem gwasanaeth" yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd ac rydym yn gobeithio cwblhau'r adolygiad hwn erbyn diwedd Mehefin 2016. Bydd unrhyw newid i'r ffi eitem gwasanaeth yn cael ei gymhwyso i bob rhaglen frechu sydd â ffi eitem gwasanaeth o £7.80 ar hyn o bryd, gan gynnwys y rhaglen hon, ac yn cael ei ô-dyddio i 1 Ebrill 2016.

### **Deunyddiau gwybodaeth**

Mae adnoddau i ymarferwyr iechyd yn cael eu diweddarau a byddant ar gael drwy lechyd Cyhoeddus Cymru yn:


<http://www.immunisation.wales.nhs.uk/pertussis-vaccination-in-pregnancy>

Caiff y daflen "Whooping Cough and Pregnancy" ei disodli gan daflen gyfunol ar frechiadau yn ystod beichiogrwydd a bydd y daflen hon ar gael yn fuan drwy e-bostio [hpilibrary@wales.nhs.uk](mailto:hpilibrary@wales.nhs.uk) neu drwy ffonio 0845 606 4050.

Bydd y daflen, ynghyd â gwybodaeth arall, ar gael ar wefan Galw lechyd Cymru: <http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/w/article/whoopingcough/>

Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i chi a'ch staff am barhau i hyrwyddo a gweithredu'r rhaglen frechu bwysig hon.

Yn gywir



**Dr Chris Jones**

Prif Swyddog Meddygol Dros Dro/Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru

2016 Rhif (Cy. )

**DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU)  
2006**

**Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol  
(Brechiad Pertwsis ar gyfer Menywod Beichiog ac Ôl-  
enedigol) (Gwasanaethau Ychwanegol o dan  
Gyfarwyddyd) (Cymru) 2016**

*Gwnaed* 16 Mehefin 2016

*Yn dod i rym* 17 Mehefin 2016

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006<sup>(3)</sup>, yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Brechiad Pertwsis ar gyfer Menywod Beichiog ac Ôl-enedigol) (Gwasanaethau Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2016.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 17 Mehefin 2016.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol<sup>(4)</sup> ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

2. Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr “blwyddyn ariannol” (“*financial year*”) yw'r cyfnod o 1 Ebrill i 31 Mawrth;

ystyr “contractwr GMS” (“*GMS contractor*”) yw person y mae Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwymo neu wedi ymrwymo i gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol gydag ef;

ystyr “contractwr gwasanaethau meddygol sylfaenol” (“*primary medical services contractor*”) yw—

(a) contractwr GMS neu PMS, neu

(b) person y mae Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud neu wedi gwneud trefniadau contractiol gydag ef i ddarparu gwasanaethau meddygol sylfaenol o dan adran 41(2)(b) o'r Ddeddf;

ystyr “contractwr PMS” (“*PMS contractor*”) yw person y mae Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwymo neu wedi ymrwymo i drefniadau gydag ef yn unol ag adran 50 o'r Ddeddf sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw ddarparu gwasanaethau meddygol sylfaenol;

ystyr “Datganiad ar Hawlogaeth Ariannol” (“*Statement of Financial Entitlement*”) yw unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 45 o'r Ddeddf;

---

<sup>(3)</sup> 2006 p. 42.

<sup>(4)</sup> Byrddau Iechyd Lleol a sefydlir yn unol ag adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “gweithiwr gofal iechyd proffesiynol” (“*healthcare professional*”) yw person sy’n aelod o broffesiwn a reoleiddir gan gorff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002<sup>(5)</sup>; ac

ystyr “ymarferydd cyffredinol” (“*general practitioner*”) yw ymarferydd meddygol y mae ei enw wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol a lunnir gan Fwrdd Iechyd Lleol o dan reoliad 3 o Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004<sup>(6)</sup>.

### Sefydlu Cynllun Brechiad Pertwsis ar gyfer Menywod Beichiog ac Ôl-enedigol

3. Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol arfer ei swyddogaethau o dan adran 41 o’r Ddeddf er mwyn darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yn ei ardal, neu sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn cael eu darparu yn ei ardal, drwy (fel rhan o’i waith o gyflawni’r swyddogaethau hynny) sefydlu (os nad yw eisoes wedi gwneud hynny), gweithredu ac, fel y bo’n briodol, ddiwygio Cynllun Brechiad Pertwsis ar gyfer Menywod Beichiog ac Ôl-enedigol a chanddo’r diben sylfaenol o ehangu’r rhaglen dros dro o frechu menywod beichiog ac ôl-enedigol rhag pertwsis mewn ymateb i lefelau uwch parhaus o weithgarwch pertwsis.

### Y Cynllun Brechiad Pertwsis ar gyfer Menywod Beichiog ac Ôl-enedigol

4.—(1) Fel rhan o’i Gynllun Brechiad Pertwsis ar gyfer Menywod Beichiog ac Ôl-enedigol, caiff pob Bwrdd Iechyd Lleol ymrwymo i drefniadau gyda phob contractwr gwasanaethau meddygol sylfaenol (“y contractwr”) yn ei ardal (oni bai bod ganddo drefniadau o’r fath eisoes gyda’r contractwr mewn cysylltiad â’r flwyddyn ariannol honno), a thrwy hynny roi cyfle rhesymol i’r contractwr i gymryd rhan yn y Cynllun yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

(2) Rhaid i’r cynllun sy’n nodi’r trefniadau y mae Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwymo neu wedi ymrwymo iddynt gyda’r contractwr, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol y mae’r cynllun yn ymwneud â hi, gynnwys—

- (a) gofyniad bod y contractwr yn datblygu ac yn cynnal cofrestr (“Cofrestr y Cynllun Brechiad Pertwsis ar gyfer Menywod Beichiog ac Ôl-enedigol”) o’r holl gleifion sydd mewn perygl ac y mae’r contractwr i gynnig brechiadau pertwsis iddynt. Caiff Cofrestr y Cynllun Brechiad Pertwsis ar gyfer Menywod Beichiog ac Ôl-enedigol gynnwys cofnodion sydd wedi eu tagio’n electronig mewn cronfa ddata gyfrifiadurol ehangach. At y dibenion hyn, mae claf mewn perygl o gael haint pertwsis—
  - (i) os yw’n fenyw feichiog o 16 o wythnosau ymlaen, gyda’r adeg optimaidd yn y cyfnod o wythnosau 16 i 32 yn gynhwysol, a chyda bwlbh o un mis o leiaf rhwng unrhyw imiwneddio blaenorol rhag pertwsis, difftheria, tetanws a/neu bolio, a’r dos hwn;
  - (ii) os yw’n fenyw feichiog o 32 o wythnosau hyd nes i’r esgor ddechrau, os na roddwyd y brechiad yn ystod y cyfnod optimaidd a nodir ym mharagraff (i); neu
  - (iii) os yw’n fam newydd na chafodd ei brechu rhag pertwsis yn ystod ei bechiogrwydd ac nad yw ei phlentyn wedi cael ei frechiadau cyntaf;
- (b) gofyniad bod y contractwr yn ymgymryd â gwneud y canlynol pan yw’n ymwybodol bod ei glaf yn feichiog—
  - (i) cynnig brechiad i’r cleifion hynny;
  - (ii) cofnodi’r wybodaeth sydd ganddo yn ei Gofrestr Cynllun Brechiad Pertwsis ar gyfer Menywod Beichiog ac Ôl-enedigol gan ddefnyddio codau cenedlaethol cymwys Read; a
  - (iii) datblygu dull rhagweithiol ac ataliol o gynnig y brechiad pertwsis drwy fabwysiadu systemau galw ac atgoffa cadarn er mwyn—
    - (aa) sicrhau bod cynifer o gleifion sydd mewn perygl â phosibl yn cael y brechiad; a
    - (bb) cyflawni unrhyw dargedau o ran iechyd y cyhoedd mewn cysylltiad â’r brechiadau hynny;

<sup>(5)</sup> 2002 p. 17.

<sup>(6)</sup> O.S. 2004/1020 (Cy. 117) fel y’i diwygiwyd.


- (c) gofyniad bod y contractwr yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y cofnodion meddygol gydol oes a ddelir gan ymarferydd cyffredinol claf sydd mewn perygl yn cael eu cadw'n gyfredol o ran ei statws imiwneiddio, ac yn benodol eu bod yn cynnwys—
  - (i) unrhyw gynnig o frechiad sy'n cael ei wrthod; neu
  - (ii) pan fo cynnig o frechiad wedi ei dderbyn—
    - (aa) manylion y cydsyniad i'r brechiad (pan fo person wedi cydsynio ar ran claf sydd mewn perygl, rhaid i berthynas y person hwnnw â'r claf sydd mewn perygl gael ei chofnodi hefyd);
    - (bb) rhif swp, dyddiad dod i ben a theitl y brechlyn;
    - (cc) dyddiad rhoi'r brechlyn;
    - (dd) pan fo dau frechlyn yn cael eu rhoi yn syth ar ôl ei gilydd, lwybr rhoi pob brechlyn a'r safle lle y rhoddir pob brechlyn;
    - (ee) unrhyw wrtharwyddion i'r brechiad; ac
    - (ff) unrhyw adweithiau niweidiol i'r brechiad;
- (d) gofyniad bod y contractwr yn sicrhau bod gan unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â rhoi brechlyn—
  - (i) unrhyw brofiad, sgiliau a hyfforddiant y mae eu hangen i roi'r brechlyn gan gyfeirio at y safonau gofynnol cenedlaethol; a
  - (ii) hyfforddiant o ran cydnabod anaffylacsis a'i drin yn y lle cyntaf;
- (e) gofyniad bod y contractwr yn sicrhau—
  - (i) bod pob brechlyn yn cael ei gadw yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr;
  - (ii) bod thermometr uchafbwynt/isafbwynt i bob rhewgell lle y cedwir y brechlynnau a bod darlleniadau yn cael eu cymryd o'r thermometr hwnnw ar bob diwrnod gwaith; a
  - (iii) bod pob brechlyn yn cael ei archebu, ei gadw a'i fonitro i leihau gwastraff;
- (f) gofyniad bod y contractwr yn cyflenwi i'w Fwrdd Iechyd Lleol unrhyw wybodaeth y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn yn rhesymol amdani mor aml ag y mae'n gofyn yn rhesymol amdani at ddibenion monitro sut y mae'r contractwr yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y cynllun; ac
- (g) y trefniadau talu am y contractwr.

(3) Rhaid i'r trefniadau talu ddarparu—

- (a) pan fo'r contractwr a'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi cytuno ar drefniadau fel y'u hamlinellir yn is-baragraffau (a) i (g) a bod y contractwr yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y cynllun, y bydd y contractwr yn gallu hawlio (ar ôl i'r Bwrdd Iechyd Lleol wirio hynny) daliad o £7.80 fesul claf cofrestredig; a
- (b) y bydd y taliad hwnnw yn ôl-daladwy bob chwarter ac y bydd yn daladwy ar y dyddiad cyntaf ar ôl i'r taliad gael ei awdurdodi y mae un o daliadau misol Swm Cyffredinol y contractwr yn dod yn ddyledus yn unol â'r Datganiad ar Hawlogaeth Ariannol.

(4) Ymdrinnir ag unrhyw anghydfodau sy'n codi yn y ffordd ragnodedig. Dylai Byrddau Iechyd Lleol a chontractwyr wneud pob ymdrech i ddatrys yr anghydfod yn lleol cyn ei gyflwyno'n ffurfiol drwy weithdrefn datrys anghydfodau'r GIG.

(5) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol, pan fo'n angenrheidiol, amrywio contract gwasanaethau meddygol cyffredinol y contractwr fel bod y cynllun yn cynnwys rhan o contract y contractwr a bod gofynion y cynllun yn amodau o'r contract.



*Dr Grant L. Duncan*

Llofnodwyd gan y Dr Grant L. Duncan, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad 16 Mehefin 2016